

Cyfeirnod: IR899

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2023

Gwariant LIC ar weithredu terfyn cyflymder 20mya

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 17 Hydref 2023, lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth "mewn perthynas â gweithrediad unochrog Llywodraeth Cymru o derfynau cyflymder 20mya". Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich eitemau o wybodaeth y gofynnir amdanynt isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

Eitem 1. Y gost gyffredinol i gynnwys: caledwedd newydd a lleoliad gweithwyr, gan gynnwys y gost ar gyfer marciau ychwanegol ar wyneb y ffordd, hy tarmac coch

Mae gennym rywfaint o ddeunydd sy'n ymwneud â'ch cais am y gost gyffredinol; fodd bynnag, rwy'n cadw'r wybodaeth hon yn ôl am y rhesymau canlynol:

Rwyf o'r farn bod y wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn rhinwedd adran 33(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio cyhoeddus.

Mae adran 33(1) yn gymwys i unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r canlynol –

- (a) archwilio cyfrifon awdurdodau cyhoeddus eraill, neu
 - (b) archwilio i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn defnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau.
- (2) Mae gwybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus y mae'r adran hon yn berthnasol iddo yn wybodaeth esempt os byddai ei datgelu yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt yn isadran (1).

Er bod gan ACC hawliau mynediad statudol i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arfer llawer o'i swyddogaethau, mae hawliau o'r fath yn gweithredu ar y sail bod ACC yn nodi bod y wybodaeth a ddarperir yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae perfformiad effeithiol swyddogaethau archwilio yn dibynnu nid yn unig ar gael gwybodaeth y mae ACC yn nodi ei bod yn angenrheidiol ar gyfer archwiliad ond hefyd ar gydweithrediad parhaus y corff a archwilir, gan gynnwys gwirfoddoli am ddim i wybodaeth a allai fod yn berthnasol gan y corff a archwilir, er mwyn hwyluso cynllunio archwiliadau yn effeithiol, er enghraifft.

Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o arwain at lai o ddarparu gwybodaeth yn wirfoddol a gwrthwynebiad hefyd yn fwy na thebyg, megis drwy gwestiynu a oes angen mynediad at wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Felly, byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio'r ffordd y caiff swyddogaethau ACC eu harfer mewn perthynas ag archwilio drwy annog cyrff a archwilir i beidio â bod yn barod i gydweithredu ag archwilyr. Mae ymgysylltu'n rhydd ac yn agored â chyrff a archwilir yn hanfodol er mwyn cynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol.

Mae'r esemptiad hwn yn amodol ar y prawf lles y cyhoedd, yr wyf wedi'i gymhwyso fel y dangosir isod:

O blaid datgelu

- Tryloywder ac atebolrwydd yn y broses archwilio mewn perthynas ag arian cyhoeddus, gan gynnwys hwyluso dealltwriaeth gyhoeddus ehangach a gwybodaeth am sut mae'r broses archwilio cyhoeddus yn gweithio.

Yn erbyn datgelu

- Byddai datgelu yn atal cydweithredu ag archwilyr cyhoeddus yn y dyfodol, a byddai'r effaith negyddol ar y cyflenwad gwybodaeth yn peryglu effeithiolrwydd archwilyr wrth wneud eu gwaith er mwyn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

Yr wyf wedi dod i'r casgliad bod cydbwysedd lles y cyhoedd yn erbyn datgelu, a chedwir yr eithriad a33.

Eitem 2. Costau cyfreithiol newid y ddeddfwriaeth, boed gan weithwyr y cyngor ai peidio.

Nid oes gennym y wybodaeth hon.

Eitem 3. Cost ymgynghoriadau â chymunedau lleol (os o gwbl). Gan gynnwys unrhyw dreuliau fel teithio neu fwyd a hawlir gan unrhyw aelod o Senedd Cymru sy'n gysylltiedig â'r prosiect mewn unrhyw ffordd.

Nid oes gennym y wybodaeth hon.

Eitem 4. Cost yr ymchwil cyn gwneud y penderfyniad (os o gwbl) fel yn Eitem 3.

Nid oes gennym y wybodaeth hon.

Eitem 5. Nifer y rhybuddion a roddwyd a'r cosbau penodedig a roddwyd ers ei sefydlu, hyd at ddyddiad eich ymateb.

Nid oes gennym y wybodaeth hon.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth